

# Gweithgareddau

## Ysgol Fforest







# Cynefin Anifail

**Byddwch Angen:**

- Casgliad o bethau naturiol wedi eu gwasgaru yn yr ardal awyr agored, e.e. plu, dail, brigau, mwd.

**Y Gweithgaredd:**

- Gofynnwch i'r plant eistedd mewn cylch a thrafod pa fath o 'gartrefi' y mae anifeiliaid gwahanol yn byw ynddynt a beth maent yn ei ddefnyddio i wneud y cartrefi hyn.
- Gofynnwch i'r plant i fynd i chwilio (yn yr ardal awyr agored sydd wedi ei pharatoi) am rai eitemau a ellid eu defnyddio i wneud cynefin ar gyfer anifail.
- Pan ddaw'r plant yn ôl, gosodwch yr holl eitemau ynghanol y cylch.
- Ceisiwch wneud cartrefi addas ar gyfer yr anifeiliaid mewn mannau gwahanol, e.e. cartref i aderyn – mewn coeden, cartref i ddraenog – ar y ddaear.

twinkl.com



# Natur Gerddorol

**Byddwch Angen:**

- Casgliad o bethau naturiol wedi eu gwasgaru yn yr ardal awyr agored, e.e. cerrig, pren, cregyn, hadau.
- Gwifren

**Y Gweithgaredd:**

- Dywedwch wrth y plant am gasglu gwrthrychau allai wneud, yn eu barn nhw, sain ddiddorol.
- Gwnewch rychau mewn darn o bren i greu rhathell. Llusgwch ddarn arall o bren drosto i weld sut mae'n swnio.
- Gadewch i'r plant cael cynnig ar greu synau neu offerynnau cerdd gyda'u gwrthrychau, e.e. priciau fel ffyn taro drwm, hadau y tu mewn i rywbeth i wneud maraca syml.

twinkl.com





# Beth Sydd Tu Mewn i'ch Cylch?


**Byddwch Angen:**

- Cylchoedd (neu linyn)

**Y Gweithgaredd:**

- Mewn grwpiau bach, rhowch gylch (neu ddarn o linyn i wneud cylch) ar y llawr.
- Dwedwch wrth y plant am fynd i ganfod lle arbennig i osod eu cylch ar y llawr.
- Gofynnwch iddyn nhw edrych yn ofalus ar yr hyn sydd y tu mewn i'r cylch, e.e. dail, brigau, planhigion, plu.
- Dwedwch wrth y plant am drafod gyda grwpiau eraill am y pethau gwahanol y maent wedi eu canfod yn eu cylch nhw. Trafodwch y pethau sy'n tyfu a beth sydd ddim yn tyfu. Fedr y plant ragweld beth allai newid y tu mewn i'w cylch mewn amser?
- Yn ystod yr wythnosau nesaf, gall y plant ailymweld â'u cylchoedd a gweld beth sydd wedi newid.

twinkl.com



# Gêm y Cof

**Byddwch Angen:**


- Casgliad o bethau naturiol wedi eu gwasgaru mewn ardal goediog, e.e. dail, plu, brigau, mes.

**Y Gweithgaredd:**

- Gofynnwch i'r plant gasglu nifer o eitemau sydd wedi eu gwasgaru o amgylch ardal goediog. Atgoffwch y plant i beidio â chasglu blodau gwyllt.
- Rhannwch y plant i grwpiau bach (neu i barau).
- Gosodwch yr holl eitemau a gasglwyd ynghanol y cylch.
- Dywedwch wrth y plant fod angen iddynt geisio cofio'r holl eitemau sydd yn y cylch.
- Mae'r plant i droi i ffwrdd er mwyn i un eitem gael ei dynnu o'r cylch.
- Dewiswch un plentyn i ddyfalu pa eitem sydd wedi cael ei symud.

twinkl.com





# Gwelaf i gyda'm Llygad Bach i


**Byddwch Angen:**

- Tiwbiau cardfwrdd
- Ardal awyr agored/coedwig

**Y Gweithgaredd:**

- Rhowch diwb cardfwrdd i bob plentyn.
- Mewn parau, gofynnwch i'r plant archwilio'r ardal gan ddefnyddio'r tiwb er mwyn canolbwyntio ar bethau penodol, yn agos atynt neu'n bell i ffwrdd.
- Dwedwch wrth y plant am ddangos i'w partner yr eitemau naturiol y maent wedi eu canfod.

twinkl.com



# Dilynwch yr Arweinydd

**Byddwch Angen:**
- Darn o linyn/gwlân (1m o hyd, un i bob plentyn)
- Ardal awyr agored/coedwig gydag eitemau naturiol wedi eu gwasgaru o gwmpas.

**Y Gweithgaredd:**
- Dwedwch wrth y plant am ddod o hyd i ddarn o bren bob un a chlymu'r llinyn/gwlân o amgylch un pen.
- Ewch am dro'n araf o amgylch yr ardal/goedwig a gofynnwch i'r plant gasglu gwrthrychau naturiol wrth iddynt gerdded. Gofynnwch iddynt ddewis yn ofalus a chodi eu hoff bethau'n unig.
- Mae'r plant yn clymu eu gwrthrychau at y darn o bren gyda'r llinyn/gwlân.
- Wedi i chi gwblhau'r daith gerdded, gofynnwch i'r plant ddisgrifio'r gwrthrychau y maent wedi eu casglu ac egluro pam eu bod wedi eu dewis.

twinkl.com






# Beth Ydw i?

**Byddwch Angen:**
- Bagiau casglu
- Ardal awyr agored/coedwig gydag eitemau naturiol wedi eu gwasgaru o gwmpas, e.e. dail, plu, priciau, mes.

**Y Gweithgaredd:**
- Dwedwch wrth y plant am gasglu eitemau naturiol o'r ardal /goedwig.
- Dwedwch wrth y plant am fynd i barau a gosod eu heitemau ynghanol y cylch.
- Gadewch i bob plentyn ddewis gwrthrych (heb ei enwi na'i gyffwrdd) gan ei ddisgrifio. Rhaid i'w partner geisio dyfalu pa wrthrych sy'n cael ei ddisgrifio.
- Y plant i newid drosodd.

twinkl.com




# Gêm Gasglu

**Byddwch Angen:**
- Bagiau casglu neu focsys
- Ardal awyr agored/coedwig gydag eitemau naturiol wedi eu gwasgaru o gwmpas

**Y Gweithgaredd:**
- Gofynnwch i'r plant weithio mewn parau i gasglu 8-12 o wrthrychau naturiol.
- Mae'r plentyn cyntaf yn dosbarthu'r eitemau yn ôl meini prawf gwahanol, e.e. eitemau caled/meddal.
- Mae'r plentyn arall yn gorfod ceisio dyfalu sut y mae'r eitemau wedi cael eu dosbarthu.
- Mae'r plant yn cymryd eu tro.

twinkl.com






# Cynlluniwch eich Coedwig eich Hunan

**Byddwch Angen:**
- Darn mawr o bapur a rhywbeth i ysgrifennu
- Coedwig

**Y Gweithgaredd:**
- Gofynnwch i'r plant gerdded o amgylch y goedwig a thrafod y pethau naturiol y maent yn gallu eu gweld. Pa rai maen nhw'n eu hoffi/ddim yn eu hoffi a pham?
- Gofynnwch iddynt ddefnyddio'u dychymyg i'w helpu i gynllunio eu coedwig berffaith, gan gynnwys y pethau y maent wedi eu gweld ac wedi eu hoffi.
- Tynnwch lun syniadau'r plant a'u labelu gan wneud yn siŵr eich bod yn ystyried ac yn trafod cynaliadwyedd y goedwig.

twinkl.com



# Llythyrau

**Byddwch Angen:**

- Amrywiaeth o adnoddau naturiol wedi eu gwasgaru o amgylch ardal awyr agored, e.e. priciau, cerrig, plu.
- Twba tywod neu ardal fwdlyd.
- Llythyr (gan anifail) wedi ei guddio rywle yn yr ardal.

**Y Gweithgaredd:**

- Gofynnwch i'r plant ddod o hyd i'r llythyr sydd wedi ei guddio a sylwch pa lythrennau maent yn eu hadnabod. Helpwch y plant i ddarllen y llythyr yn uchel.
- Dwedwch wrth y plant nad oes gennych feiro, pensil na phapur gyda chi. Sut fedrwch chi ateb y llythyr?
- Gwrandewch ar eu syniadau a cheisiwch eu hannog i ddod o hyd i wrthrychau sydd wedi eu gwasgaru o gwmpas, un ai i ffurfio llythrennau neu i'w defnyddio i ysgrifennu yn y tywod/mwd.

twinkl.com





# Fedrwch chi Ganfod?

**Byddwch Angen:**

- Adnoddau naturiol mewn bocs neu fasged.

**Y Gweithgaredd:**

Gofynnwch i'r plant ganfod y canlynol:

- gwrthrych gwyrdd
- gwrthrych hardd
- gwrthrych syth
- gwrthrych blewog
- gwrthrych crwn
- gwrthrych melyn
- gwrthrych llyfn
- gwrthrych garw

Fedr y plant ganfod rhywbeth sydd ddim ar y rhestr?

Cymrwch lun o'r holl wrthrychau sydd wedi cael eu casglu. Meddyliwch a allech chi wneud cerflun gyda rhai o'r eitemau.

twinkl.com

# Celf Natur

**Byddwch Angen:**

- Mwgwd llygaid
- Bagiau casglu
- Amrywiaeth o adnoddau naturiol wedi eu gwasgaru o amgylch ardal awyr agored

**Y Gweithgaredd:**

- Dangoswch enghreifftiau o gelf dros dro i'r plant. Trafodwch y gwrthrychau a ddefnyddiwyd gan yr artist.
- Gofynnwch i'r plant gasglu 2-3 gwrthrych naturiol y credant hwy allai fod yn rhan o waith celf naturiol.
- Rhowch fwgwd dros lygaid rhai o'r plant a gofyn iddynt deimlo rhai gwrthrychau a cheisio dyfalu eu deunydd. Anogwch y plant i ddisgrifio'r gweadau y maent yn eu teimlo.
- Gofynnwch i'r plant weithio mewn grwpiau bach i greu darn o waith celf gyda'u gwrthrychau.
- Tynnwch luniau gwaith celf gorffenedig y plant.
- Fel dosbarth, cerddwch o amgylch y gwahanol ddarnau o gelf a siaradwch am y gwrthrychau gwahanol sydd wedi cael eu defnyddio.

twinkl.com



# Basgedi Dail

**Byddwch Angen:**

- Casglwch nifer o ddail (dail sych, hyblyg o faint canolig sydd orau)
- Powlen blastig
- Glud
- Jeli petrolewm

**Y Gweithgaredd:**

- Trowch y bowlen a'i phen i waered.
- Gorchuddiwch y bowlen gyda haen denau o jeli petrolewm.
- Gwnewch haenen o ddail ar y fowlen a'i gorchuddio gyda glud fel y byddech yn ei wneud gyda papier-mache.
- Ychwanegwch nifer o haenau.
- Gadewch i'r bowlen sychu.
- Pan fydd y dail yn gwbl sych, tynnwch y bowlen oddi ar y dail.

Gallech hefyd addurno'r fasged gyda gwrthrychau naturiol eraill, e.e. hadau bach.

twinkl.com



# Pa Blanhigyn Ydw i?

**Byddwch Angen:**

- Lluniau wedi eu labelu o blanhigion sy'n tyfu yn eich ardal awyr agored.
- Bocs neu fag.

**Y Gweithgaredd:**

- Gofynnwch i'r plant eistedd mewn cylch.
- Gofynnwch i blentyn ddewis un o'r lluniau ac edrych arno'n ofalus. Yna, dylai osod y llun yn y bocs/bag ac eistedd gyda hwnnw ynghanol y cylch.
- Dywedwch wrth y plant am ofyn cwestiynau fydd yn eu helpu i geisio dyfalu pa lun sydd yn y bocs/bag.
- Dylai pob plentyn ofyn cwestiwn am y planhigyn.
- Mae'r plentyn sydd yn y canol yn ateb y cwestiynau hyd nes i'r plant feddwl eu bod yn gwybod pa blanhigyn ydyw. Yna, mae'n dewis plentyn i ddyfalu pa blanhigyn sydd wedi cael ei roi yn y bocs/bag.







# Sibrwd y Dail

**Byddwch Angen:**

- Lle tawel
- Deilen a gasglwyd gan y plant

**Y Gweithgaredd:**

- Gofynnwch i'r plant eistedd mewn cylch.
- Dywedwch wrth y plant fod gan y ddeilen arbennig neges gyfrinachol a dim ond wrth wrando un ar y tro y gellir ei chlywed.
- Mae'r plant yn mynd i helpu'r ddeilen i gario'i neges o amgylch y cylch o'r plentyn cyntaf hyd at yr olaf.
- Mae oedolyn yn meddwl am neges i'w phasio o amgylch y cylch, yna mae'n gafael yn y ddeilen ac yn sibrwd y neges wrth y plentyn agosaf ato. Eglurwch fod yn rhaid i bawb arall fod yn hollol dawel.
- Mae'r ddeilen yn cael ei phasio o amgylch y cylch wrth i bob plentyn sibrwd y neges wrth y nesaf.
- Pan gyrhaedda'r ddeilen at y plentyn olaf, mae hwnnw'n dweud neges y ddeilen yn uchel. Ydi'r neges yr un fath â'r un a ddywedodd yr oedolyn? Trafodwch pam y gallai fod yn wahanol.